

18. Y CWPAN GRAS
(Stori o'r unfed ganrif ar ddeg)

Amser te un noswaith yr oedd brenhines newydd yr Alban yn eistedd wrth ochr ei gŵr yn gwylio'r marchogion yn gorffen bwyta'u bwyd yn y neuadd fawr. Mewn llysoedd eraill roedd yn arferiad ar ddiwedd pryd i ddiolch am eich bwyd. Ond, fel arfer, fe anghofiodd y marchogion Albanaidd. Gan daro'r llestri yfed yn swnllyd ar y bwrdd, i ffwrdd â hwy yn wyllt i gyd.

Yn benisel a heb neb i'w hebrwng gadawodd y frenhines ifanc y palas a cherddodd i'r eglwys gerllaw. Carai Margaret yr Arglwydd ei Duw ond yr oedd yr hyn a welsai yn y neuadd yn ei thristáu.Yr oedd yn hiraethu am ei hen gartref. Petai hi wedi cael y rhyddid i ddewis fyddai hi byth wedi priodi brenin yr Alban – gŵr gwyllt ei dymer oedd yn ddigon hen i fod yn dad iddi. Ond yr adeg honno nid oedd gan dywysogesau fawr o ddylanwad ar faterion o'r fath.

Y tu mewn i'r eglwys penliniodd Margaret gerbron yr allor. Ymbalfalodd o dan ei chlogyn gan estyn llyfr – copi o'r pedair efengyl – a dechrau ei ddarllen. Fel arfer, cryfhawyd ei ffydd wrth ddarllen y geiriau. 'Waeth i mi heb â bod yn hunan-dosturiol yn cwyno am ymddygiad y marchogion ac arferion gwyllt y brenin,' meddai hi wrthi ei hunan. 'Mae gan Dduw bwrpas dros fy anfon i yma.'

Yr oedd hi wedi ymgolli cymaint fel na sylwodd fod y Brenin Malcolm yn dynesu.

'Margaret!' Trodd mewn dychryn gan weld y brenin mawr yn llenwi'r porth.

'Mae rhywbeth yn dy ofidio.' Brasgamodd i lawr tuag ati. 'Waeth i ti heb â gwadu. Roedd yr olwg ar dy wyneb yn ddigon. Os yw un o'r marchogion yna wedi dy sarhau fe ... fe ...'

'Na, Malcolm. Ddigwyddodd dim byd fel yna.' Gan hanner chwerthin gafaelodd Margaret yn nwrn ei gŵr. Doedd hi ddim ar unrhyw gyfrif am weld ei gŵr yn rhuthro allan o'r eglwys a thaflu'r marchogion i'r carchar.

'Wel, dywed beth ddigwyddodd.' Yn sydyn, gwelodd y copi o'r efengylau ar y fainc. Daeth y cyfan yn amlwg iddo. 'Gweld rhywbeth na fyddai'n plesio Duw a wnest ti.'

Amneidiodd Margaret ei phen yn gadarnhaol. Cynhesodd ei chalon wrth weld llygaid ei gŵr – oedd mor aml yn llawn gwylltineb – yn awr yn llawn gofal. Faint dylai hi ei ddweud? Eisoes bu mân siarad yn y llys fod ganddi ormod o ddylanwad ar ei gŵr. Yr oedd pawb wedi sylwi mor awyddus ydoedd i ddysgu mwy am y Beibl. Dywedai'r marchogion ei fod wedi newid llawer. Ond, gwyddai Margaret fod yn rhaid iddi fod yn ofalus. Gallai un cam gwag ddifetha'r cyfan.

Yn yr efengylau roedd Iesu wedi dweud wrth y disgyblion am ymddiried yn yr Ysbryd Glân i roi'r geiriau iawn iddynt. Nawr gweddïodd Margaret am ddoethineb. Wrth iddi weddïo cofiodd am rywbeth – arferiad roedd hi wedi ei weld – a rhoddodd syniad iddi.

'Malcolm,' meddai hi, 'os caf dy ganiatâd y mae rhywbeth yr hoffwn ei wneud ar ôl prydau bwyd ...'

Yn y neuadd fawr y noswaith ganlynol tawelodd y sgwrsio'n sydyn wrth i'r Brenin Malcolm godi ar ei draed.

'Fel arwydd o'i ffafr, dymuna eich brenhines roddi cwpanaid o win arbennig i bob marchog fydd yn aros ar ôl i ddiolch am ei bryd bwyd,' cyhoeddodd.

Yr oedd pawb yn gwenu. Yr oedd y marchogion wedi dysgu eu gwers – ond yn y modd mwyaf dymunol posibl.

Ar ddiwedd y pryd ni symudodd neb. Gwrandawodd pawb yn dawel tra oedd y gras yn cael ei adrodd. Yna cafodd y gwin, neu'r 'diod gras' fel y galwai Margaret ef, ei basio oddi amgylch y bwrdd.

Felly, mor hawdd â hynny, heb unrhyw ddadlau na pheri loes i neb, perswadiodd Margaret y marchogion i wneud yr hyn oedd yn gyfiawn. Wrth ei gwylio roedd yn amlwg i'r brenin fod cariad Crist yn llenwi ei chalon. A diolchodd i Dduw am wraig mor arbennig.

HYD: 3–4 munud

NEGES: Mae Duw yn rhoi i ni'r doethineb angenrheidiol i ddylanwadu ar eraill.

DARLLEN: Colosiaid 4: 5–6

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganed Margaret yn 1046 a bu farw yn 1093 yn bedwar deg saith mlwydd oed. Priododd â Malcolm III, brenin yr Alban, yn 1069 a bu'n ddylanwad mawr ar yr eglwys a'r llys. Cafodd wyth o blant a bu tri'n teyrnasu ar yr Alban (Edgar, Alexander a David) tra priododd ei merch Matilda â Harri I o Loegr.